

## Adroddiad Blynnyddol gan Gyngorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cyngorydd:** Gwilym O. Jones  
**Grwp:** Annibynnol

**Ward:** Llifon

### Rôl a Chyfrifoldebau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cefais fy ethol yn Gadeirydd y Cyngor Sir, swydd y bum yn ei dal yn 2011/12. Bu'n flwyddyn hynod brysur fel Prif Ddinesydd yr Ynys a chefais y fraint o fynychu nifer helaeth o ddigwyddiadau ar hyd a lled yr Ynys a thu hwnt. Cefais y cyfle i gyfarfod llawer o bobl mewn gwahanol ddigwyddiadau a sermoniau. Cafwyd tri achlysur Dinesig o bwys yn ystod y flwyddyn, sef Seremoni cyflwyno Rhyddfaint yr Ynys i'r Awyrlu yn ystod mis Mehefin yn Llangefni, Gwasanaeth Sul y Cadeirydd yng Nghapel Tabor y Fali ac yna noson Cinio Elusennol y Cadeirydd yng Ngwesty Bae Trearddur ar ddiwedd fy nghyfnod fel Cadeirydd. Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gasglu £6150 at dri mudiad sef Ward Dewi, Ward y Plant Ysbyty Gwynedd; Cronfa Gofal Coranari Ysbyty Gwynedd a Chroesffyrdd Ynys Môn.

| Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:                                                                                                          | * Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM) |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Cyngor                                                                                                                                                                                           | 13 (100%)                                   |
| Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd)                                                                                                                                                           | 7 (100%)                                    |
| Is-Bwyllgor Indemniadau                                                                                                                                                                          | Dim cyfarfodydd                             |
| Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd                                                                                                                                                                   | Dim cyfarfodydd                             |
| Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cadeirydd)                                                                                                                                             | 4 (100%)                                    |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)                                                                                                                                          | 2 (66%)                                     |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. |                                             |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth elusennol Ynys Môn ac yn Is-Gadeirydd Is-Bwyllor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

### Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Gynradd y Fali ers Medi 2013). Yn ystod y flwyddyn daeth fy nghyfnod fel Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Bodedern i ben.

Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn o Gyngor Cymuned Bodedern, Y Fali a Llanfaelog.

Rwyf wedi bod yn delio gydag amrywiol faterion yn yr etholaeth. Bu etholwyr mewn cysylltiad â mi naill ai'n bersonol, ar y ffôn neu drwy e-bost.

Rwyf wedi bod yn mynychu Neuadd Bentref Rhosneigr pob bore Sadwrn gyda fy nghyd gynghorydd lleol er mwyn cynorthwyo gydag amrywiol faterion gan etholwyr yr ardal.

Mae cynnal darpariaeth cymunedol yn fy etholaeth yn bwysig ac rwy'n Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Caergeiliog.

### Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Bum yn ymwneud â gweithgareddau yn yr etholaeth i gefnogi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog a'r berthynas gyda Llu Awyr Y Fali yn arbennig. Fe ysgrifennai gyflwyniad i lyfryn "Bywyd yn y Fali/Life at RAF Valley" a bum yn bresennol mewn achlysur i lansio'r llyfr gyda Phrif Swyddog y Fali.

### Dysgu a Datblygu

| <b>Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan CSYM):</b> |                 |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|
| Cyflwyniad i Gefnogaeth i Aelodau                                                                                                 | Mai 2013        |
| Iaith Gymraeg/Diogelu Data/Y Wasg a'r Cyfryngau                                                                                   | Mai 2013        |
| Hyfforddiant ar y Gofrestr Diddordebau                                                                                            | Mai 2013        |
| Trosolwg o'r Swyddogaethau Sgriwtini                                                                                              | Mehefin 2013    |
| Sgiliau Cadeirio – Sgriwtini                                                                                                      | Mehefin 2013    |
| Sgiliau Cwestiynu – Sgriwtini                                                                                                     | Mehefin 2013    |
| Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol                                                                                                  | Mehefin 2013    |
| Gwneud Mwy o Wahaniaeth mewn Sgriwtini                                                                                            | Mehefin 2013    |
| Cynnal Adolygiad Sgriwtini                                                                                                        | Gorffennaf 2013 |
| Gwneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol Weithio i Gynghorwyr                                                                            | Medi 2013       |
| Craffu'r Gyllideb                                                                                                                 | Hydref 2013     |

### Gweithgareddau a Materion Eraill

Mae gwella diogelwch y ffyrdd yn fater rwyf wedi bod yn rhoi sylw iddo. Bum yn cydweithio gyda'r Cyngor Cymuned Lleol i geisio cyflwyno mesurau i wella diogelwch y ffordd yng nghyffuniau Ysgol Gymuned y Tywyn. Bum hefyd yn weithgar er mwyn sicrhau gwelliannau tebyg yn Llanynghenedl. Yn olaf, rwyf wedi bod yn cydweithio gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau palmant ar gyfer defnydd y cyhoedd rhwng Y Fali a Chaergeiliog a gwelliannau i'r ffordd rhwng Caergeiliog a Llanfair yn Neubwll.